TAG

# Edexcel TAG Uwch Gyfrannol yn y Celfyddydau Perfformio (Dyfarniad Sengl) (8781)

# Edexcel TAG Uwch yn y Celfyddydau Perfformio (Dyfarniad Sengl) (9781)

I'w dysgu gyntaf yn yr hydref 2005

Mehefin 2005

advancing learning, changing lives

Deunyddiau asesu sampl

Edexcel TAG Uwch yn
y Celfyddydau Perfformio (Dyfarniad Sengl)

Mae Edexcel Cyfyngedig yn un o’r prif gyrff arholi a dyfarnu yn y Deyrnas Unedig a ledled y byd. Mae’n ymgorffori’r holl gymwysterau a ddyfarnwyd cyn hyn o dan frand Edexcel a BTEC. Rydym yn cynnig amrediad eang o gymwysterau gan gynnwys rhai cyffredinol (academaidd) a galwedigaethol a rhaglenni penodol i gyflogwyr.

Trwy rwydwaith o swyddfeydd yn y DU a gwledydd tramor, mae ein canolfannau’n derbyn y gefnogaeth sydd ei hangen arnyn nhw i’w helpu i gyflwyno eu rhaglenni addysg a hyfforddiant i ddysgwyr.

Am wybodaeth bellach ffoniwch ein Gwasanaethau i Gwsmeriaid ar 0870 240 9800, neu ewch i’n gwefan yn www.edexcel.org.uk

*Gwneir cyfeiriadau at ddeunyddiau trydydd parti yn y fanyleb hon yn ddidwyll. Nid yw Cymwysterau Llundain yn cefnogi, yn cymeradwyo nac yn derbyn cyfrifoldeb am gynnwys y deunyddiau, a all fod yn agored i’w newid, nac unrhyw farn a fynegir ynddynt. (Gall y deunydd gynnwys gwerslyfrau, cylchgronau a chyhoeddiadau eraill a gwefannau.)*

Awdurdodwyd gan Jim Dobson
Paratowyd gan Brian Ingram

Mae’r holl ddeunydd yn y cyhoeddiad hwn yn hawlfraint
© Edexcel Cyfyngedig 2005

# Cynnwys


**Cyfarwyddiadau ar gyfer cymhwyso briffiau comisiwn** 1

**Uned 3: Perfformio i Gomisiwn** 2

**Uned 7: Cyflwyno Cynhyrchiad** 3

**Asesu** 4

Meini prawf asesu — Uned 3: Perfformio i Gomisiwn 5

Meini prawf asesu — Uned 7: Cyflwyno Cynhyrchiad 6

# Cyfarwyddiadau ar gyfer cymhwyso briffiau comisiwn

1 Bydd yr asesu ar gyfer *UG Uned 3: Perfformio i Gomisiwn* ac U2 *Uned 7: Cyflwyno Cynhyrchiad* mewn ymateb i ddewis o *Friffiau Comisiwn* ar gyfer *Uned 3* a *Briff Cynhyrchiad* unigol ar gyfer *Uned 7* a osodir gan Edexcel. Caiff y briffiau hyn eu gosod ar wefan Edexcel (www.edexcel.org.uk) ym mis Medi ar ddechrau pob blwyddyn o'r cwrs.

2 Ar wahân i'r ddogfen hon **ni fydd papur arholiad** ar gyfer yr unedau a asesir yn allanol.

3 Caiff yr asesiad ei wneud gan aseswyr y ganolfan, a bydd penderfyniadau'r rhain yn agored i'w safoni gan safonwyr allanol Edexcel. Caiff yr holl safoni ei wneud mewn ymweliadau â'r ganolfan, a bydd yn digwydd yr un pryd â safoni unedau'r portffolio, yng nghyfnod safoni'r haf (Mai/Mehefin).

4 Bydd grwpiau perfformio rhwng tri a 12 myfyriwr a hyd y perfformiad rhwng 30 a 60 munud.

5 Gall y perfformiad ddigwydd yn y ganolfan neu mewn unrhyw fan addas arall.

6 Caiff canolfannau benderfynu ar amserau paratoi ac ymarfer, ond dylid nodi bod *Unedau 3* a *7* wedi eu cynllunio i ganiatáu cyfnod paratoi ac ymarfer o 60 awr.

7 Rhaid i'r holl berfformiadau grŵp gael eu recordio ar fideo a bod ar gael i'r safonwr os bydd yn gofyn.

8 **Dylai canolfannau nodi y caiff yr unedau hyn eu safoni yn yr haf yn unig, ac nad oes cyfres Tachwedd na Ionawr**.

# Uned 3: Perfformio i Gomisiwn

Rhaid dewis **un** o'r **Briffiau Comisiwn** canlynol.

## Enghraifft 1

Mae eich Awdurdod Addysg lleol wedi gofyn i chi greu prosiect THEMA (Theatr mewn Addysg) i hyrwyddo dinasyddiaeth yn y gymuned.

## Enghraifft 2

Mae elusen wedi gofyn i chi gynhyrchu digwyddiad perfformio i hyrwyddo eu datganiad cenhadaeth. Dylai'r digwyddiad gynrychioli yn fras nodau'r elusen a chael ei gyflwyno i gynulleidfa addas.

## Enghraifft 3

Cymerwch bennawd neu erthygl o bapur newydd heddiw (cenedlaethol neu leol). Defnyddiwch hon fel man cychwyn wrth ddatblygu digwyddiad perfformio.

Gall y deunydd perfformio ar gyfer *Uned 3* fod yn waith gwreiddiol neu gall ddefnyddio deunydd sydd eisoes yn bod.

Dylid defnyddio'r profiad a gafwyd yn *Uned 2: Cynllunio ar gyfer Digwyddiad* yn y broses ar gyfer y gwaith yn yr uned hon.

Dylai'r holl gynllunio gynnwys ystyriaeth o:

- y gynulleidfa darged
- lleoliad y perfformiad
- adnoddau.

# Uned 7: Cyflwyno Cynhyrchiad

Rhaid i'r **Briff Cynhyrchu** canlynol ffurfio sail y gwaith ar gyfer *Uned 7.*

## Enghraifft

**Cawsoch eich comisiynu i gynhyrchu digwyddiad perfformio ar gyfer cynulleidfa addas gan ddefnyddio'r thema GWAHANIAETH.**

Mae'r deunydd perfformio ar gyfer *Uned 7* yn gofyn am archwiliad o ddarn neu ddarnau sydd eisoes yn bod, o repertoire, testun neu sgôr fel sail ar gyfer datblygu'r gwaith perfformio.

Dylid defnyddio'r profiad a gafwyd yn *Uned 2: Cynllunio ar gyfer Digwyddiad, Uned 5: Ymarfer Perfformio Uwch* neu *Uned 6: Ymarfer Cynhyrchu Uwch* gael ei ddefnyddio yn y broses ar gyfer y gwaith yn yr uned hon.

Dylai'r holl gynllunio gynnwys ystyriaeth o:

- y gynulleidfa darged
- lleoliad y perfformiad
- adnoddau.

# Asesu

Bydd Edexcel yn penodi safonwr allanol i ymweld â'ch canolfan/lleoliad ar ddyddiad a bennir i asesu unedau mewnol ac allanol ar sail sampl. Dylid cadw'r holl waith yn y ganolfan oni ofynnir yn wahanol gan Edexcel.

Bydd cyfnod yr ymweliad yn ystod mis Mai a Mis Mehefin yng nghyfres arholiadau'r haf. Dylid cwblhau pob gwaith (portffolios ar gyfer unedau i'w hasesu'n fewnol a'r perfformiad) ar gyfer diwrnod ymweliad y safonwr allanol.

Bydd y safonwr allanol yn asesu, gyda'r athro, berfformiadau grwpiau'n cynnwys yr ymgeisydd â'r sgôr uchaf a'r ymgeisydd â'r sgôr isaf, ar ddiwrnod yr ymweliad. Bydd yr athro wedyn ar ddiwrnodau dilynol yn asesu gweddill y garfan ar sail y cyngor a gafwyd gan y safonwr allanol. Lle mae nifer y garfan yn fach, gall hi fod yn bosibl i'r safonwr allanol weld yr holl berfformiadau gyda'r athro.

Mae gan y ganolfan hyd at wythnos ar ôl ymweliad y safonwr allanol i gyflwyno marciau i Edexcel.

Rhoddir gwybod i ganolfannau pwy yw eu safonwr allanol er mwyn trefnu dyddiad ymweliad, erbyn diwedd Ebrill ym mlwyddyn yr asesu.

Nid oes cyfle i gael unedau wedi'u hasesu yn ystod cyfres arholiadau Ionawr.

## Meini prawf asesu — Uned 3: Perfformio i Gomisiwn

| | Band Marciau 1 | Band Marciau 2 | Band Marciau 3 | Marc a ddyfarnwyd |
|---|---|---|---|---|
| **(a) (AA2)** | Dethol sgiliau sy'n dangos ymwybyddiaeth o ofynion y comisiwn gwreiddiol. **(0-6)** | Dethol sgiliau perthnasol sy'n rhoi ymateb effeithiol i'r comisiwn gwreiddiol. **(7-9)** | Dethol ystod eang o sgiliau priodol i roi ymateb ardderchog i'r comisiwn gwreiddiol gan adael i chi ddangos dychymyg a dawn mewn dehongliad soffistigedig o'r deunydd a ddewiswyd. **(10-12)** | **12** |
| **(a) (AA2)** | Ennill lefel dderbyniol o sgiliau a thechnegau sy'n ddigonol ar gyfer gofynion y comisiwn a pherfformio neu gynorthwyo deunydd wedi ei ymarfer â chywirdeb. **(0-6)** | Dangos lefelau cadarn o sgiliau a thechnegau yr ydych yn eu defnyddio ag eglurder a hyder. **(7-9)** | Dangos eich bod wedi ennill ystod ardderchog o sgiliau a thechnegau a bod gennych reolaeth drostynt. Gallwch eu defnyddio mewn dull cydlynol ac argyhoeddiadol. **(10-12)** | **12** |
| **(b + c) (AA3)** | Cyflawni perfformiad gan ddefnyddio sgiliau a thechnegau'n briodol. Mae eich gwaith yn gwneud cyfraniad i'r ensemble a llwyddiant y darn. **(0-9)** | Dangos y gallu i berfformio neu gynorthwyo deunydd a ymarferwyd â chywirdeb a llithrigrwydd mewn ymgais i ryngweithio â'r gynulleidfa. **(10-14)** | Wedi cyflawni perfformiad yn llawn sy wedi ei wreiddio'n gryf yn eich ymrwymiad a'ch gallu i ddatblygu neu gynorthwyo deunydd a ymarferwyd. **(15-18)** | **18** |
| **(b + c) (AA3)** | Dangos ymwybyddiaeth o eraill ond mae eich gallu i gyfathrebu, â'r perfformwyr ar y llwyfan a'r gynulleidfa, yn cael ei gyfyngu gan ambell lithriad o ran technegau a chanolbwyntio. **(0-9)** | Cyflawni perfformiad sy'n gwneud cyfraniad sylweddol i ansawdd gyffredinol y gwaith. Mae eich ymdrechion yn cynorthwyo gwaith y grŵp yn gyffredinol ac yr ydych yn gweithio â chryn ffocws i gyfleu'r cysyniadau cynhenid y perfformiad. **(10-14)** | Dangos bod eich proffesiynoldeb a chyfraniad sylweddol yn brif elfennau yn ansawdd gyffredinol y gwaith. Yr ydych yn cyfrannu at gyfleu perfformiad clir ac argyhoeddiadol iawn gan werthfawrogi'n llawn gysyniadau cynhenid y darn. **(15-18)** | **18** |
| | | | **Cyfanswm y marciau** | **60** |

## Meini prawf asesu — Uned 7: Cyflwyno Cynhyrchiad

| | Band Marciau 1 | Band Marciau 2 | Band Marciau 3 | Marc a ddyfarnwyd |
|---|---|---|---|---|
| **(a) (AA1)** | Dangos peth ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o sut mae diwydiant y Celfyddydau Perfformio yn ymateb i friff cynhyrchu. **(0-7)** | Dangos ymwybyddiaeth a dealltwriaeth dda o sut mae diwydiant y Celfyddydau Perfformio yn ymateb i friff cynhyrchu. **(8-11)** | Dangos ymwybyddiaeth a dealltwriaeth drylwyr o sut mae diwydiant y Celfyddydau Perfformio yn ymateb i friff cynhyrchu. **(12-15)** | **15** |
| **(b) (AA2)** | Dangos lefel sylfaenol o sgìl a thechneg yn berthnasol i alwadau'r briff Cynhyrchu. **(0-7)** | Dangos lefel gadarn o sgìl a thechneg yn berthnasol i alwadau'r briff Cynhyrchu. **(8-11)** | Dangos ystod lawn o sgiliau a thechnegau a ddefnyddir mewn ffordd gydlynol i ategu'n glir alwadau'r briff Cynhyrchu. **(12-15)** | **15** |
| **(c) (AA3)** | Dangos cyfathrebu sylfaenol rhwng aelodau'r tîm cynhyrchu yng nghyd-destun perfformiad gan ddefnyddio sgiliau a thechnegau yn briodol. **(0-7)** | Dangos cyfathrebu cywir a rhugl rhwng aelodau'r tîm cynhyrchu yng nghyd-destun perfformiad gan ddefnyddio sgiliau a thechnegau yn briodol. **(8-11)** | Dangos cyfathrebu llawn rhwng aelodau'r tîm cynhyrchu yng nghyd-destun perfformiad gan ddefnyddio sgiliau a thechnegau gyda chryn dipyn o ddawn a dychymyg. **(12-15)** | **15** |
| **(c) (AA3)** | Bydd y cyfathrebu â'r gynulleidfa yn gyfyngedig ac nid yw arddull y gwaith bob amser yn briodol. **(0-7)** | Bydd y cyfathrebu â'r gynulleidfa yn briodol a bydd arddull y gwaith yn glir ac yn briodol. **(8-11)** | Bydd y cyfathrebu â'r gynulleidfa yn ardderchog ac arddull y gwaith yn gwbl briodol. **(12-15)** | **15** |
| | | | **Cyfanswm y marciau** | **60** |

908rl020605S:\LT\PD\APPLIED GCE\WELSH APP GCE SAMS\UA015766 CYMRAEG APPLIED GCE PERFORMING ARTS SAM.DOC.1-11/1

**Mehefin 2005**

**Am ragor o wybodaeth am gymwysterau Edexcel a BTEC cysylltwch â**
**Gwasanaethau Cwsmeriaid ar 0870 240 9800**
**neu http://enquiries.edexcel.org.uk**
**neu ymwelwch â'n gwefan: www.edexcel.org.uk**

**Edexcel Cyfyngedig. Yn gofrestredig yng Nghymru a Lloegr Rhif 4496750**
**Swyddfa Gofrestredig: One90 High Holborn, Llundain WC1V 7BH**